# Y Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored

2023 - 2033

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# SUT OLWG *ALLAI* FOD ARNI YN 2033?

- **Gwasanaeth mwy integredig ac annatod, sy'n sylfaenol i gyflawni canlyniadau corfforaethol a chenedlaethol**
- **Pawb yn cael mynediad i'n gwasanaethau Hamdden, Diwylliannol ac Awyr Agored**
- **Pob plentyn ar y llwybr i fywyd egnïol, iach, cysylltiedig**
- **Mwy o bobl yn rhan o gymunedau ffyniannus, gofalgar, egnïol**
- **Hunaniaeth Ddiwylliannol gryfach Sir Gaerfyrddin**
- **Sir Gaerfyrddin iachach**
- **Lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef**
- **Pobl yn gofalu am ein hamgylchedd awyr agored a gwneud gwell defnydd ohono**
- **Gwasanaeth mwy effeithlon, cost effeithiol, sy'n ein galluogi ni i ail-fuddsoddi'n weithredol yn iechyd a llesiant pobl**
- **Economi gryfach, fwy llewyrchus, hunangynhaliol**

# MSERLEN A PHROSES AR GYFER DATBLYGU'R STRATEGAETH NEWYDD

| | |
|---|---|
| Penderfyniad i Ddatblygu Strategaeth | • Hydref 2021 - Penderfyniad i ddatblygu Strategaeth newydd |
| Datblygu Fframwaith Strategol | • Chwefror - Mai 2022 - Ymgynghoriad Mewnol Cychwynnol: Pwyllgor Craffu Hamdden, Tîm yr Uwch-arweinwyr, timau Rheoli Hamdden<br>• Mehefin - Cyflwyno Fframwaith Strategol Drafft i Dîm Rheoli'r Adran<br>• Medi – Tachwedd - Cyflwyno'r Fframwaith Strategol Drafft i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Rhag-Gyfarfod Y Cabinet a Pwyllgor Craffu |
| Ymgynghori â Phartneriaid Allanol | • Ionawr – Ebrill 2022 - Ymgynghoriad allanol ynghylch y Fframwaith Strategol Drafft i Randdeiliaid a Phartneriaid<br>• Gwanwyn/Haf - Ymgynghoriad Allanol gyda'r Cyhoedd, Defnyddwyr Gwasanaeth a chlybiau / grwpiau lleol |
| Ymgynghori â'r Aelodau | • Medi / Hydref - Cyflwyno'r draft terfynol i'r Aelod Cabinet<br>• Hydref - Cyflwyniad i Rhag-Gyfarfod y Cabinet |
| Penderfyniad y Cyngor | • Hydref /Tachwedd - Cymeradwyaeth y Cabinet<br>• Rhagfyr 2023 - Gweithredu'r Strategaeth |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# STRWYTHUR A CHYNNWYS Y CYFLWYNIAD

## Lle fuon ni?

- Ein Taith 2007 - 2023

## Ble rydym ni nawr?

- Y Gwasanaeth Hamdden heddiw
- Map Rhanddeiliaid
- Aliniad Strategol y Gwasanaeth
- Data gwybodaeth / tueddiadau sy'n dylanwadu ar y Strategaeth
- Ymgynghoriad Rhanddeiliaid Mewnol – adborth hyd yma

## I ble rydyn ni'n mynd?

- Themâu sy'n dod i'r amlwg yn sgil yr Ymgynghoriad Mewnol
- Fframwaith Strategol
- Blaenoriaethau'r Gwasanaeth Hamdden
- Gweledigaeth ar gyfer 2033 - Sut olwg sydd ar lwyddiant?

# O BLE Y DAETHON NI? 2007 - 2023

Cyhoeddwyd y Strategaeth Hamdden gyntaf (2007)

Llywodraeth Leol yn dechrau cyfnod o lymder (2009/10+)

Trosglwyddo Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau i'r Gwasanaethau Hamdden (2012)

Adolygu opsiynau darparu gwasanaethau:
model darparu mewnol wedi'i gymeradwyo
(2016)

Trosglwyddo Asedau (2017)
Ffocws a buddsoddiad i yrru incwm a sicrhau effeithlonrwydd
(2017)


Ailstrwythuro'r gweithlu i gefnogi darpariaeth a pherfformiad mwy strategol
(2017-19)


Buddsoddiad cyfalaf strategol mewn cyfleusterau
(2017-23)


Boddhad cwsmeriaid a lefelau incwm yn cynyddu'n gyson hyd at y pandemig
(2017-20)

Gwasanaeth yn adfer o'r pandemig, gan gyflymu trawsnewid digidol arloesol a gwasanaethau ar-lein
(2020-23)

Angen strategaeth Hamdden newydd
(2023+)




Carmarthenshire County Council

# BLE'R YDYM NI NAWR? Y Gwasanaeth Hamdden heddiw

**Pwrpas y gwasanaeth**: Mae gwasanaethau hamdden, diwylliant a hamdden awyr agored yn helpu i greu lleoedd lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â nhw. Maent yn chwarae rhan hanfodol ym maes iechyd cyhoeddus a llesiant wrth ddatblygu hunaniaeth ddiwylliannol a chydlyniant cymunedol.

- Chwaraeon a Hamdden Actif - Cyfleusterau Dan Do / Awyr Agored, Tîm Datblygu Chwaraeon Cymunedol Actif, Tîm Iechyd a Ffitrwydd
- Gwasanaethau Diwylliannol - Theatrau, Archifau, Orielau, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd, a'r Celfyddydau
- Hamdden Awyr Agored - Parciau Gwledig, Safleoedd Arfordirol Strategol, Gwarchodfeydd Natur Lleol, ac Addysg Awyr Agored

## Sefyllfa 'cyflwr sefydlog'

- **Gwariant:** Mae CSC yn gwario tua £18.01m ar Hamdden, Hamdden Awyr Agored a Diwylliant bob blwyddyn
- **Incwm:** tua £10.33m y flwyddyn ar draws y gwasanaeth
- **Costau net:** £7.68m y flwyddyn
- **Cyfradd Adennill Weithredol:** 57.36% (Incwm/Gwariant)
- **Cost y pen o'r boblogaeth**: £40.40 (poblogaeth 190,073)
- **Gweithlu**: Mae'r gwasanaeth yn cyflogi 162 o staff llawn amser, 138 o staff rhan-amser a 146 o staff achlysurol.
- **Costau ynni:** tua £859k y flwyddyn (dŵr, trydan / nwy ac ati)
- **Ymweliadau defnyddwyr:** Mae'r gwasanaeth yn croesawu dros 3 miliwn o ymweliadau defnyddwyr y flwyddyn.
- **Gwerth Gymdeithasol:** Mae Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden Actif yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol o dros £5m y flwyddyn ar gyfer y £2m (net) a fuddsoddir. Mae hyn yn cynnwys: dros £4m o fudd i lesiant cyffredinol; ac £800k o fuddion iechyd uniongyrchol yn gysylltiedig â lleihau'r risg o strociau, canser, diabetes, iselder ac ymweliadau cyffredinol â meddygon teulu

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# BLE'R YDYM NI NAWR? Grym y farchnad

Gwasanaeth Hamdden

- **Rhagolygon ariannol**: rhagwelir setliadau anodd dros y blynyddoedd nesaf. Bydd angen i'r holl wasanaethau yn unigol, ac ar y cyd, roi tystiolaeth o well gwerth cymdeithasol ac ariannol parhaus. Gwerthoedd cyfredol isod, gyda ffigurau gwerth cymdeithasol sylfaenol i'w pennu ar gyfer gwasanaethau Hamdden Diwylliannol ac Awyr Agored.
- Chwaraeon a Hamdden Actif - Cost y pen £ 11.10; Cyfradd Adennill Weithredol 71.66%; Gwerth Cymdeithasol £5m
- Gwasanaethau Diwylliannol - Cost y pen £ 25.88; Cyfradd Adennill Weithredol 20.18%; Gwerth Cymdeithasol £i'w gadarnhau
- Hamdden Awyr Agored - Cost y pen £ 1.18; Cyfradd Adennill Weithredol 93.83%; Gwerth Cymdeithasol £i'w gadarnhau

- **Darpariaeth yn y dyfodol:** Nid dewis o un gwasanaeth o flaen y llall - mae pob un o'r gwasanaethau hyn yn dod â gwerth cymdeithasol i Sir Gaerfyrddin, ond maent yn wahanol o ran eu gallu i weithredu'n 'fasnachol' - traws-gymorthdaliadau yn egwyddor allweddol
- **Heriau gwariant**: Mae gennym lawer o asedau adeiledig ar draws y portffolio, ac mae'r rhain yn costio. Mae costau ynni yn effeithio'n aruthrol ar ein hadeiladau mawr, ac mae'r costau wedi cynyddu 150-185% dros y blynyddoedd diwethaf. Mae defnyddio llai o ynni a gwneud y defnydd gorau o (unrhyw) asedau presennol yn allweddol er mwyn wynebu'r heriau hyn. Dewisiadau amgen symudol / ar-lein / wedi'u ffrydio i'w hystyried
- **Gweithlu**: heriau recriwtio a chadw, yn enwedig mewn rolau blaen tŷ arbenigol mewn safleoedd gwledig e.e. hyfforddwyr nofio / atgyfeiriadau ymarfer corff. Heriau tymhorol hefyd.
- **Heriau incwm**: Mae £4.5m o'r incwm cyffredinol o £10.3m ar gyfer y gwasanaeth yn dod o Iechyd a Ffitrwydd, a Gweithgareddau Dŵr. Incwm wedi ei adfer o sero i 100% ers covid. Mae gweithgareddau newydd yn dod ar-lein e.e. Caban ym Mhentywyn, Pentre Awel.
- **Datblygu cynaliadwy:** Mae dull adolygu a gwella parhaus yn allweddol i fodelu darparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol – sicrhau canlyniadau gwell gyda llai o adnoddau.

# RHANDDEILIAID ALLWEDDOL



# Aliniad Strategol y Gwasanaeth

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Cyngor Sir Caerfyrddin

Datblygu Sir Gaerfyrddin Gyda'n Gilydd: Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais

Yr Adran Gymunedol

Helpu Cymunedau i Ffynnu... Galluogi Bywydau Iachach

Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored

Gwella ein Hiechyd a'n Llesiant..... Gwella ein Diwylliant a'n Hunaniaeth

# DATA A THUEDDIADAU CORFFORAETHOL PRESENNOL SY'N DYLANWADU AR Y STRATEGAETH

| | |
|---|---|
| Gordewdra yn ystod Plentyndod | • Mae amcanestyniadau yn awgrymu y bydd cynnydd o ran tueddiadau gordewdra yn ystod plentyndod, gyda'r ffigurau'n dangos mai bechgyn rhwng 2 a 15 oed sy'n wynebu'r risg fwyaf.<br>• Sir Gaerfyrddin sydd â'r lefel uchaf o blant sydd dros bwysau neu'n ordew yng Nghymru gyda 31.4 % o blant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew. (Rhaglen Mesur Plant Cymru 2021/22, Iechyd Cyhoeddus Cymru) |
| Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod | • Mae gan Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod effaith niweidiol ar iechyd a llesiant gydol oes.<br>• Mae plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith yn fwy tebygol o gael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Mae 8.7% o blant yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn aelwydydd heb waith (Cyf: Cynllun Sir Gaerfyrddin 21/22) |
| Trechu Tlodi | • Yn ôl y diffiniad, gellir dweud bod 33.8% (27,691) o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, y 13eg uchaf yng Nghymru (Cyfartaledd Cymru yw 32.9%).<br>• Mae'n bosibl bod Pandemig COVID-19 wedi effeithio'n fwy sylweddol ar y cymunedau mwyaf difreintiedig. (Cyf: Cynllun Sir Gaerfyrddin 21/22) |
| Creu Mwy o Swyddi a Thwf | • Mae darparu swyddi diogel gyda chyflog da i bobl leol yn ganolog i bopeth yr ydym yn ceisio'i gyflawni. Mae cynyddu cyflogadwyedd yn hanfodol i drechu tlodi a lleihau anghyfartaledd ac yn cael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n gallu i fyw mewn cymdeithas. (Cyf: Cynllun Sir Gaerfyrddin 21/22) |
| Helpu Pobl i Fyw Bywydau Iach | • Mae bwlch sylweddol rhwng disgwyliad oes a disgwyliad oes iach. Yn Sir Gaerfyrddin, mae'r disgwyliad oes iach i ddynion a menywod yn is na chyfartaledd Cymru sef 65.3 a 66.7 o flynyddoedd. (Cyf: Cynllun Sir Gaerfyrddin 21/22) |
| Cydlyniant Cymunedol | • Dim ond hanner (51.5%) trigolion Sir Gaerfyrddin sy'n teimlo eu bod yn byw mewn cymunedau cydlynus, lle mae pobl yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth, lle mae pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda, a lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol. (Cyf: Cynllun Sir Gaerfyrddin 21/22) |
| Cefnogi Pobl Hŷn i heneiddio yn dda a chadw urddas | • Mae rhagamcaniadau cyfredol yn awgrymu bod poblogaeth pobl dros 65 sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin yn tyfu ac erbyn 2030 bydd yn cynyddu 60%.<br>• Mae'n hanfodol inni osod seiliau cadarn i ddiogelu at y dyfodol argaeledd gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant parhaus ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn sy'n fregus. (Cyf: Cynllun Sir Gaerfyrddin 21/22) |
| Gofalu am yr Amgylchedd | • Mae'r Amgylchedd Naturiol yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar |

# YMGYNGHORIAD - YR ARGRAFF O'R GWASANAETH

Canfyddiad y Gwasanaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored (LCOR)

- Mae'r gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi, mae pobl yn ymddiried ynddo a'i barchu
- Mae'n cystadlu'n dda fel gwasanaeth anstatudol trawsffurfiol
- Mae hyder yn y rheolwyr
- Mae Safleoedd Mawr (gan gynnwys Pentre Awel pan fydd yn weithredol) wedi eu dosbarthu'n dda ledled y Sir
- Mae gwasanaethau wedi goroesi ac adfer / ffynnu wedi'r cyni a'r pandemig
- Adfer incwm yn gadarnhaol iawn (wedi Covid) – gostyngiad parhaus mewn cymorthdaliadau cyhoeddus / dangos gwytnwch ariannol ac arloesedd
- Dim awydd i gael darpariaeth allanol e.e. Ymddiriedolaeth neu Weithredwr Trydydd Parti
- Cyfraniad hanfodol at adferiad economaidd (ar ôl Covid), (parhad) adfywio a ffyniant yn y dyfodol
- Iechyd a Llesiant dinasyddion o bwysigrwydd uchel
- Mae buddsoddiad cyfalaf wedi'i gynllunio'n dda (yn strategol), yn cael ei reoli'n dda ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr a thwf
- Teimlad cyffredinol o falchder a brwdfrydedd i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl
- Ail-strwythuro'r gweithlu wedi gwella'r ddarpariaeth a pherfformiad
- Gweithio'n dda gyda gwasanaethau llesiant corfforaethol
- Gwasanaeth wedi perfformio yn ystod y pandemig ac wedi arfer yn hynod dda
- Gwersi wedi'u o'r pandemig – cyflymu dulliau arloesol ac agweddau ar ddigidoleiddio

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# YMGYNGHORIAD - HERIAU I'R GWASANAETH

- Canolbwyntio ar werthoedd cymdeithasol a phoblogaeth – gwella iechyd meddwl a llesiant corfforol sy'n arwain at iechyd gydol oes (gwell), gan gael effaith gadarnhaol ar iechyd ac adfywio economaidd (ac adferiad ôl-Covid)
- Parhau i gyfrannu at gyfeiriad corfforaethol ac ychwanegu gwerth at amcanion corfforaethol CSC – Athroniaeth Un Tîm
- Lleihau lefelau gordewdra yn ystod plentyndod
- Cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi - rhaid sicrhau bod gan bobl mewn tlodi fynediad at wasanaethau
- Risgiau sy'n gysylltiedig â chostau ynni cynyddol ar gyfer cyfleusterau a'r gwasanaeth yn gyffredinol / ymwybyddiaeth o'r agenda werdd a thargedau
- Costau byw yn cynyddu i ddefnyddwyr gwasanaeth presennol ac yn y dyfodol – polisïau codi tâl a phrisio cymdeithasol yn allweddol, nodwyd materion yn dilyn ymgynghori cyhoeddus
- Sut i ymgysylltu â phoblogaeth sy'n heneiddio a'i chefnogi
- Datblygu dulliau o gysylltu â chymunedau gwledig a'u cefnogi
- Helpu i gefnogi cymunedau i fod yn fwy cydlynus ac i ffynnu
- Mae angen tystiolaeth bod talwyr treth yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth ac mae'n bodloni eu hanghenion a'u disgwyliadau
- Parhau i arloesi a thrawsnewid y gwasanaeth - ‘buddsoddi i arbed' a datblygu'r cynnig
- Gwelliant parhaus ar ffocws cwsmeriaid, darparu gwasanaethau a chysondeb safonau ar draws y gwasanaeth
- Heriau gydag ystwythder y gweithlu presennol / recriwtio ôl-Covid - sut olwg sydd ar weithlu'r dyfodol?
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i arloesi e.e. darparu rhaglenni, technoleg a digidoli, gwella cyfleusterau ac 'agenda gwyrdd', cydbwyso:- Masnachadwyedd/Effeithlonrwydd yn erbyn Cymdeithasol/Cydraddoldeb/Amrywiaeth/Cynhwysiant
- Heriau gweithio mewn rhai adeiladau rhestredig, rhai sy'n dirywio, neu stoc sy'n heneiddio, ac mae ymgynghori cyhoeddus yn amlygu’r dyhead am gyfleusterau gwell
- Cydnabod systemau archebu gwahanol, systemau casglu data a chofnodi ar draws y gwasanaeth

# YMGYNGHORIAD - CYFLEOEDD AR GYFER Y GWASANAETH

- Tîm Sir Gaerfyrddin – cefnogi / cryfhau / ychwanegu gwerth at y strategaeth gorfforaethol a'r brand, ychwanegu gwerth a'i wreiddio mewn gwasanaethau statudol craidd e.e. addysg, gwasanaethau cymdeithasol, twristiaeth, economi, amgylchedd ac ati.
- Dod yn eiriolwyr pwerus dros y gwasanaeth a dathlu cyflawniadau pobl a'r Cyngor (adrodd stori)
- Potensial ar gyfer buddsoddiad cyfalaf i'r gwasanaeth yn y dyfodol (arian grant yn bennaf neu Fuddsoddi i Arbed), o dan arweiniad anghenion preswylwyr Sir Gaerfyrddin, ac effeithio ar gyfeiriad corfforaethol ac uchelgais CSC
- Potensial ar gyfer trawsnewid pellach, cydweithio, rhannu prosiectau / gwasanaethau a deallusrwydd rhwng adrannau CSC
- Adrannau hamdden sy'n gweithio'n agosach gyda'i gilydd e.e. theatrau awyr agored, amser stori weithredol mewn llyfrgelloedd, diwylliant chwaraeon ac arddangosfeydd treftadaeth a ddangosir mewn canolfannau hamdden, gweithgarwch llesiant corfforol a gyflwynir mewn mannau diwylliant e.e. ioga/dawns/symudiad
- Manteisio i'r eithaf ar dreftadaeth, diwylliant a hunaniaeth gref ac unigryw Sir Gaerfyrddin, gan ei galluogi i ffynnu, a helpu i adrodd straeon cadarnhaol am y Sir
- Manteisio i'r eithaf ar y cyfle i breswylwyr werthfawrogi a defnyddio'r awyr agored – cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol (yn rhad ac am ddim)
- Cysylltu â strategaethau rhanddeiliaid i fanteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad i'r gwasanaeth yn y dyfodol – Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, CNC/Sefydliad Cadwraeth, Fforymau Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Gwneud y mwyaf o ffynonellau ychwanegol o fuddsoddiad gan gynnwys arian grant, buddsoddiad masnachol a nawdd
- Parhau i flaengynllunio a sganio'r gorwel
- Dysgu gwersi Covid – gwasanaethau addasadwy / hyblyg / trawsffurfiol
- Mae buddsoddiad strategol yn parhau lle mae'n cael yr effaith fwyaf ar iechyd a llesiant pobl e.e. Pentre Awel, Llanelli
- Defnyddio a datblygu technoleg ac arloesi ymhellach, e.e. roedd yn well gan 73% o’r cyhoedd gael mynediad i’r gwasanaethau Archifau ar-lein
- Mae gwell taith a phrofiad i gwsmeriaid, ac chyfathrebu clir gyda dinasyddion yn allweddol

# I BLE YDYN NI'N MYND? THEMÂU STRATEGOL DATBLYGOL

- Manteision Iechyd a Llesiant
- Ffyniant Economaidd
- Cydlyniant Cymunedol
- Diwylliant Cymru a'r Gymraeg
- Gweithlu'r Dyfodol
- Technoleg ac Arloesedd
- Ymgysylltu â'r Cyhoedd
- Cydraddoldeb a Chynhwysiant
- Eiriolaeth a Hyrwyddo
- Cydweithio a Phartneriaeth
- Cynaliadwyedd Ariannol
- Defnydd o'r Amgylchedd Naturiol

# Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored Sir Gaerfyrddin

**Ein Hymddygiadau (wedi'u halinio â Gwerthoedd Corfforaethol)**

- Yn falch o fod yn Un Tîm
- Arwain ag Urddas
- Rhoi ein Cwsmeriaid yn Gyntaf
- Ymdrechu i Ragori
- Cymryd Cyfrifoldeb dros ein Gweithredoedd
- Gwrando ar anghenion preswylwyr ac ymwelwyr

**EIN GWELEDIGAETH (yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni)**

Rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus

**EIN RÔL YW... (Cenhedaeth – yr hyn yr ydym eisiau ei wneud)**

## Gwella Iechyd a Llesiant Sir Gaerfyrddin

**Ein Themâu Strategol**

- Cyflawni iechyd a llesiant egnïol i bawb, gydol oes
- Helpu i dyfu ffyniant economaidd, gan wneud Sir Gaerfyrddin yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo
- Cefnogi ein cymunedau i fod yn gydlynus ac yn wydn
- Gofalu am ein hamgylchedd ym mhopeth a wnawn
- Hyrwyddo ein treftadaeth, ein diwylliant a'r Gymraeg
- Rhoi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd ein gwaith

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy (galluogwyr)**

- Gweithio a datblygu POBL wych sy'n rhannu ein huchelgais a'n gwerthoedd
- Cynhyrchu ADNODDAU i fuddsoddi yn ein cyfleusterau, ein rhaglenni a'n pobl
- Bod yn gymdeithasol gyfrifol ac yn GYNHWYSOL, yn ein hymagwedd a thrwy beidio â gadael neb ar ôl
- Datblygu PARTNERIAETHAU cadarn a chydweithio â'r rheiny sy'n gallu ein helpu i gyflawni ein cenhadaeth
- Canolbwyntio ar y cwsmer a thrwy ddefnyddio TYSTIOLAETH A MEWNWELEDIAD er mwyn llywio ein gwasanaethau a gwella'n barhaus
- ADRODD STRAEON am fuddion ffordd o fyw egnïol
- Bod yn ARLOESOL er mwyn gwella gwasanaethau

**Bydd ein dull yn canolbwyntio ar...**

DECHRAU'N DDA → BYW'N DDA → HENEIDDIO'N DDA → DYFODOL IACH, DIOGEL, FFYNIANNUS

**Ein Partneriaid**

- **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Twristiaeth, Amgylchedd, Priffyrdd
- **Actif Sir Gâr** – Chwaraeon Cymru, Partneriaeth Chwaraeon Gorllewin Cymru, Cyrff Llywodraethu Chwaraeon, Cymdeithasau Rhanbarthol, Clybiau
- **Diwylliant** – Cyngor Celfyddydau, Grwpiau Theatr a Gweithgareddau Lleol
- **Hamdden Awyr Agored** – Cyfoeth Naturiol Cymru, Grwpiau Cadwraeth a Rheoli Tir

**Ein Heffaith (Mesurau Llwyddiant)**

- Dyblu nifer y defnyddwyr erbyn 2032
- Gwella Iechyd a Llesiant ein preswylwyr
- Cynyddu boddhad gwasanaeth a rhaglenni LCOR i '8' drwy arolwg sgôr Net Promoter
- Cyflawni sefyllfa carbon niwtral erbyn 2030
- Lleihau cost Gwasanaeth LCOR i bobl sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin

## Llywodraethu Cadarn ac Ymagwedd Gyfrifol Gymdeithasol tuag at ein Hamgylchedd

# BLAENORIAETHAU STRATEGOL

## Llesiant i Bawb

**Byddwn yn:-**

- Darparu gwasanaeth sy'n gwrando ac yn ymateb i anghenion ein preswylwyr (ac ymwelwyr â'n sir)
- Gosod targedau 10 mlynedd uchelgeisiol i ddyblu lefelau presennol o weithgarwch a chyfranogiad gan ein preswylwyr gan arwain at wella iechyd a llesiant
- Lleihau lefelau gordewdra, yn enwedig ymhlith plant rhwng 2 a 15 oed.
- Cydweithio â phartneriaid i gyfrannu at y gostyngiad mewn tlodi, unigrwydd ac iechyd meddwl gwael ymhlith ein preswylwyr
- Monitro lefelau boddhad cwsmeriaid yn flynyddol, gydag uchelgais i wella gwasanaethau'n barhaus
- Defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i ddarparu ein gwasanaeth, lle bo modd, gan ddarparu rhaglenni yn seiliedig ar alw.
- Defnyddio'r ddau gyfleuster adeiledig a'r amgylchedd naturiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein cynnig
- Cynnig amrywiaeth o raglenni sy'n galluogi ein preswylwyr i 'ddechrau yn dda', 'byw yn dda' a 'heneiddio'n dda'
- Defnyddio technoleg i wella darpariaeth gwasanaethau a

## Helpu i Dyfu Ffyniant Economaidd

**Byddwn yn:-**

- Cefnogi adfywio economaidd ac adfer ar ôl Covid o fewn y sir trwy ddarparu:-
  - ➢ gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol
  - ➢ digwyddiadau chwaraeon o arwyddocâd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol
  - ➢ Digwyddiadau awyr agored sy'n denu ymwelwyr i'n parciau a'n mannau agored
  - ➢ Parhau i leihau lefelau cymorthdaliadau cyhoeddus i'n gwasanaeth
  - ➢ Denu refeniw ychwanegol ac adnoddau allanol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau
  - ➢ Cefnogi mentrau twristiaeth sy'n ychwanegu gwerth i'r economi leol ac argraff y cyhoedd o Sir Gaerfyrddin
- Cyflawni strategaeth gweithlu i sicrhau bod y gwasanaeth yn ystwyth, yn addas i'r dyfodol, yn gyrru gwelliant gwasanaeth ac yn bodloni disgwyliadau ein cwsmeriaid drwy:-
  - ➢ cynllunio'r gweithlu a recriwtio
  - ➢ rhaglenni hyfforddi staff
  - ➢ strategaethau cadw staff
  - ➢ adeiladu dull 'Tîm Sir Gaerfyrddin'
  - ➢ archwilio sut y gall y gweithlu fod yn fwy cyfnewidiadwy ar draws y gwasanaeth
  - ➢ Darparu gwasanaeth cyson o

## Cefnogi ein Cymunedau i Ffynnu

**Byddwn yn:-**

- Datblygu amrywiaeth o wasanaethau a rhaglenni y gellir eu cyrchu o bob rhan o'r Sir drwy wneud y canlynol:
  - ➢ Bod yn arloesol gyda'n defnydd o dechnoleg a gwasanaethau digidol
  - ➢ Cydweithio ag Ysgolion a'r Sector Iechyd i ddarparu canlyniadau gwell, mwy effeithlon i'n cymunedau
- Deall anghenion ein cymunedau gwledig, gan fynd i'r afael yn benodol â materion sy'n atal neu'n rhwystro cyfranogiad yn ein gwasanaethau
- Ychwanegu gwerth i raglen 'canolfannau cymunedol' y Cyngor
- Datblygu strategaeth gyfathrebu sy'n wynebu tuag allan i sicrhau bod ein cymunedau'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gysylltiedig â'n gwasanaethau
- Parhau i ddarparu cyfleoedd addysg a hyfforddiant sy'n hyrwyddo ac yn galluogi arweinwyr ifanc y dyfodol
- Datblygu rhwydweithiau gwirfoddolwyr cymunedol cadarn i wneud y gorau o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i wella iechyd a llesiant

## Gofalu am Ein Hamgylchedd

**Byddwn yn:-**

- Ymrwymo i gefnogi'r gwaith o weithredu'n llwyddiannus gynllun gweithredu Carbon Sero Net y Cyngor erbyn 2030 ar draws ein gwasanaethau
- Datblygu cynllun gweithredu Cynllun gweithredu 'Tuag at Ddyfodol Di-Garbon' ar gyfer hamdden, gan ganolbwyntio ar y themâu canlynol: polisi; ynni glân; effeithlonrwydd ynni; trafnidiaeth gynaliadwy; tynnu plastig untro; rheoli Gwastraff; effeithlonrwydd dŵr; bwyd carbon isel; bioamrywiaeth; addysg; a chyfathrebu ac ymgysylltu
- Gweithio gyda Phartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin ar eu cynllun adfer lleol i gefnogi ar draws ein safleoedd hamdden morol, arfordirol, coetir, gwlyptir a thir llwyd
- Cymhwyso egwyddorion economi gylchol i bopeth a wnawn.
- Gweithio tuag at gynhyrchu dim gwastraff o gwbl ar draws ein gwasanaethau
- Anelu at ddarparu Budd Net i Fioamrywiaeth (BNF) a lleihau niwed i fywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol wrth ddatblygu cyfleusterau,a gweithgareddau yn y dyfodol
- Cefnogi cynlluniau teithio llesol a llwybrau cerdded diogel i'n

## Hyrwyddo ein Treftadaeth, ein Diwylliant a'n Hiaith

**Byddwn yn:-**

- Mynd ati i hyrwyddo treftadaeth a diwylliant unigryw a balch Sir Gaerfyrddin
- Defnyddio dull 'adrodd stori' i hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant, chwaraeon/gweithgarwch corfforol a gwych yr awyr agored i wella iechyd a llesiant
- Dathlu llwyddiant ein preswylwyr sy'n cyflawni ar lwyfan lleol, cenedlaethol a'r rhyngwladol, gan ysbrydoli ein preswylwyr i fod yn fwy egnïol a chymryd rhan yn ein rhaglenni
- Darparu gwasanaeth dwyieithog i'n cwsmeriaid, gan gefnogi a galluogi'r iaith Gymraeg i ffynnu

## Rhoi Cydraddoldeb a Chynhwysiant wrth wraidd popeth a wnawn

**Byddwn yn:-**

- Datblygu cynllun gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gefnogi a gwella ein gwasanaethau
- Parhau i ddarparu hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'n staff a'n rhwydwaith gyflenwi
- Adolygu a gwella'n barhaus sut y caiff ein gwasanaeth ei ddarparu i sicrhau ei fod ar gael ac yn hygyrch i bawb
- Cydbwyso'r angen am fasnachadwyedd gyda'r uchelgais o fod yn gyfrifol yn gymdeithasol ym mhopeth a wnawn
- Datblygu rhwydwaith cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i gynghori ar faterion cydraddoldeb a chynhwysiant e.e., Celfyddydau Anabledd/Chwaraeon Cymru, Rhwydwaith LGBTQ+, Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol

# THEMÂU CYFFREDINOL AR DRAWS Y GWASANAETH

## Rheoli'n Dda

DYNOL

- Alinio â’r strategaeth gweithlu gorfforaethol – ffocws ar recriwtio, hyfforddiant a chadw
- Cynigion a gwasanaethau wedi'u personoli / person-ganolog
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant: dull rhagweithredol o wneud gwasanaethau yn hygyrch / fforddiadwy i bawb, gan ganolbwyntio ar raglenni, gweithgareddau, taliadau a phrisiau cymdeithasol
- Mae boddhad defnyddwyr ac adborth yn allweddol
- Sicrhau bod pobl yn fwy egnïol, yn gysylltiedig ac yn iachach
- Cydweithio a chyd-fynd â gwasanaethau: e.e. Addysg; Iechyd; Adfywio; Marchnata a'r Cyfryngau

AMGYLCHEDDOL

- Tuag at darged carbon sero net corfforaethol erbyn 2030 – Hyrwyddwyr gwyrdd ar draws y gwasanaeth
- Cymhwyso egwyddorion economi gylchol i bopeth a wnawn
- Egwyddorion diwastraff

TECHNOLEGOL

- Gwasanaethau digidol i gefnogi a chanmol ymgysylltu corfforol
- Gwasanaethau cysylltiedig

ARIANNOL

- Mesurau rheoli perfformiad ar gyfer incwm, costau a rhifau defnyddwyr;
- Gwasanaethau masnachol effeithlon a chymdeithasol werthfawr (mae'r ddau yn cyd-fodoli)

ATAL

- Gweithio'n rhagweithiol gyda phartneriaid i gynnal a gwella iechyd y boblogaeth, gyda phwyslais cryf ar ddatblygu gwasanaethau ataliol i fodloni gofynion poblogaeth sy'n heneiddio, ac i fynd i'r afael â'n heriau anghydraddoldeb o ran iechyd acíwt. Mae atal yn well na gorfod datrys

ASEDAU

- Fframwaith clir o reoli cyfleusterau. Galluogi - Cyflawni.
- Mae cynllunio rheoli asedau yn allweddol

**Mesurau Allweddol**

- Canlyniadau Pobl
- Mesurau recriwtio / cadw staff
- Bodlonrwydd cwsmeriaid: Sgoriau NPS dros 8
- Gwerthoedd Cymdeithasol a gynhyrchir ar gyfer pob maes gwasanaeth
- Mesurau Iechyd Poblogaeth (yn ôl oedran / rhywedd / ardal):
- Gweithgaredd corfforol;
- Iechyd Meddwl;
- Ymgysylltu â'r gymuned;
- Lefelau gordewdra (canolbwynt ar blant)

- Canlyniadau Lleoedd
- Fframweithiau rheoli cyfleusterau ar waith
- Safleoedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, sy'n achrededig ac yn effeithlon

- Canlyniadau Amgylcheddol
- Gwella mesurau defnydd ynni/Carbon Sero Net

- Canlyniadau Economaidd
- Llunio cynllun cyfleoedd masnachol
- Adennill costau o hyd at 10%: Gwariant / Incwm

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# CHWARAEON A HAMDDEN ACTIF

## MEYSYDD FFOCWS

- Gweithio gyda'r adran Addysg i weithredu argymhellion gan y grwpiau Gorchwyl a Gorffen i helpu i leihau lefelau gordewdra plant ac i osod arferion iach am oes:
- - Datblygu model cyflenwi Cynllunio, Paratoi ac Asesu cynaliadwy ar gyfer ysgolion gan gynnwys mynediad i blatfform ar-lein Ysgolion Actif Unrhyw Le;
- - Gwella safonau llythrennedd corfforol fel y sylfaen ar gyfer gweithgarwch a llesiant gydol oes
- - Datblygu cynllun gweithgareddau dŵr ysgolion a chymunedol newydd ar gyfer y Sir
- - Datblygu strategaeth caeau chwaraeon ar gyfer y Sir gyda'r nod o gael cae pob tywydd ym mhob ysgol uwchradd
- Cwblhau ac agor Canolfan Hamdden Newydd Pentre Awel
- Cynnig iechyd a llesiant cyffredinol 24/7 – fel yr ydych chi ei eisiau, pan fyddwch chi ei eisiau, ble bynnag yr ydych chi ei eisiau
- • Datblygu dull chwaraeon i bawb gynorthwyo ystod eang o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon, o ddechreuwyr i'r elît, gan weithio i gefnogi pob Clwb Chwaraeon Cymunedol i ddod yn hunangynhaliol gyda chymorth datblygu, gan gyd-fynd â'r canlynol:
  - Cynlluniau Chwaraeon y Sir
  - Achrediad Clybiau
- Ehangu'r cwmpas Atgyfeiriadau Ymarfer Corff a chynlluniau rhagnodi cymdeithasol fel dull cydnabyddedig, effeithlon, a rhagweithiol o gefnogi a lleihau pwysau gofal sylfaenol.
- Datblygu llwyfan Actif Unrhyw Le ddwyieithog ar-lein ar gyfer: Ysgolion, canolfannau cymunedol, lleoliadau iechyd, ac awdurdodau lleol eraill
- Adfywio trefi a chymunedau:
  - Cynnig Iechyd a Ffitrwydd a Pwll Nofio gwell i Rydaman
  - Cynnig iechyd a ffitrwydd hygyrch 24/7, a chynnig hamdden masnachol yng Nghanol Tref Caerfyrddin

**Mesurau Allweddol**

<u>Canlyniadau Pobl</u>
Dyblu nifer defnyddwyr gwasanaeth erbyn 2033
Gordewdra Plant wedi gostwng 50%
Pob plentyn yn gallu nofio 25m erbyn 11 oed
Sgoriau Net Promoter o ran boddhad cwsmeriaid dros '8'

<u>Canlyniad Lleoedd</u>
Cyflawni'r holl gynlluniau cyfleusterau

<u>Canlyniad Amgylcheddol</u>
Cyfrannu at darged carbon sero net corfforaethol ar gyfer 2030
Gweithredu strategaeth rheoli gwastraff

<u>Allbwn Economaidd</u>
Buddsoddiad ychwanegol o £5m i'r gwasanaeth
Lleihau Cost y Gwasanaeth i drethdalwyr

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# GWASANAETHAU DIWYLLIANNOL

## MEYSYDD FFOCWS

- **Llyfrgelloedd ac Archifau:**
- Datblygu strategaeth Llyfrgelloedd newydd yn unol â Safonau Llyfrgell Gyhoeddus Genedlaethol sy'n esblygu, gan ganolbwyntio ar adolygu gwasanaethau allgymorth
- Model darparu hybrid ar gyfer gwasanaethau ar-lein a gwasanaethau wyneb yn wyneb
- Datblygu'r themâu canlynol: Cysylltu; Ymgysylltu; Esblygu; Gweithio fel Partneriaid; ac Angori (adfywio trefi / lleoliadau gwledig)
- Archif newydd y sir yn ganolbwynt ar gyfer hanes a chasgliadau Sir Gaerfyrddin, wedi'i chydnabod fel lle ar gyfer dysgu, creadigrwydd a darganfod.

- **Amgueddfeydd, Orielau a Chelfyddydau**
- Strategaeth Amgueddfeydd Newydd
- Cynnig annibynnol newydd wedi'i ymestyn i Oriel Myrddin
- Amgueddfa Cyflymder Tir Newydd ym Mhentywyn
- Cynllun tymor hir y cytunwyd arno ar gyfer Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli
- Datblygu partneriaethau ymhellach ag Ymddiriedolaethau, grwpiau defnyddwyr a'r 3ydd sector
- Cynllun datblygu'r Celfyddydau newydd
- Parhau â buddsoddiad i safleoedd Amgueddfa Caerfyrddin a Pharc Howard

- **Theatrau**
- Hybiau creadigol a chymdeithasol ffyniannus, chwarae rhan weithredol o ran cynnal a chefnogi cymunedau ffyniannus, creadigol
- Datblygu hunaniaeth a diwylliant dwyieithog unigryw Sir Gaerfyrddin, gan gael effaith ar gynulleidfaoedd a'u hysbrydoli, yn ein lleoliadau corfforol a thu hwnt drwy ein rhaglenni allgymorth a digidol.

**Mesurau Allweddol**

- <u>Deilliannau Pobl</u>
- Dyblu nifer defnyddwyr gwasanaeth erbyn 2033
- Sgoriau Net Promoter o ran boddhad cwsmeriaid dros '8'
- Ymgysylltu ffurfiol a phartneriaethau ag addysg / ysgolion i fanteisio ar adnoddau dysgu a'u defnyddio o'n gwasanaethau Diwylliannol

- <u>Deilliant Lleoedd</u>
- Cyflawni'r holl gynlluniau gwella cyfleusterau

- <u>Deilliant Amgylcheddol</u>
- Cyfrannu at darged carbon sero net corfforaethol ar gyfer 2030
- Gweithredu strategaeth rheoli gwastraff

- <u>Allbwn Economaidd</u>
- Buddsoddiad ychwanegol o £5m i'r gwasanaeth
- Cost fesul defnyddiwr wedi gostwng 10%

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# GWASANAETH HAMDDEN AWYR AGORED

## MEYSYDD FFOCWS

- **Addysg Awyr Agored:** Gwasanaeth Addysg Awyr Agored newydd wedi'i hail-bwrpasu ar draws y Sir, gyda phwyslais arbennig ar amrywiaeth o gyfleoedd dysgu preswyl i blant a phobl ifanc.

- **Uwchgynlluniau Safleoedd 10 mlynedd:**

- Parc Gwledig Pen-bre
  a. Uwchraddio seilwaith: Trydan; dŵr; gwastraff; band eang; depo, trac BMX
  b. Cynnig llety amrywiol: Cabanau pren/podiau
  c. Cyfleuster chwarae a gweithgareddau dan do
  d. Cyfleuster newydd ar gyfer chwaraeon traeth / caffi / treftadaeth
- Parc Arfordirol y Mileniwm
  a. Cyfleusterau Faniau Gwersylla newydd a chyfleusterau arfordirol wedi'u cysylltu ar hyd ein harfordir
  b. Cynnig chwaraeon dŵr gwell yn Noc y Gogledd
  c. Datblygu cynnig pysgota
  d. Ateb cynaliadwy i ddatblygu Porth Tywyn ac adfywio’r Ochr Ddwyreiniol
  e.
- Parc Gwledig Llyn Llech Owain a Parc Coetir y Mynydd Mawr

- **Prosiect Denu Pentywyn ar waith**

- Cynnig llety newydd 44 ystafell wely 'Y Caban'
- Datblygu chwaraeon / gweithgareddau traeth sy'n cynhyrchu incwm
- Safle faniau gwersylla newydd a pharcio gwell
- Rhaglen ddigwyddiadau’n cael ei datblygu gan randdeiliaid allweddol

- **Cynllun mannau gwyrdd a rheoli cadwraeth ar draws pob safle**
- **Strategaeth Gwastraff a Charbon Sero-net y Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored**
- **Strategaeth Digwyddiadau y Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored, gydag 1 digwyddiad mawr y flwyddyn gan roi hwb i'r economi dwristiaeth**
- **Parc sglefyrddio newydd yn**

**Mesurau Allweddol**

- <u>Deilliannau Pobl</u>
- Dyblu nifer defnyddwyr gwasanaeth erbyn 2033
- Sgoriau Net Promoter o ran boddhad cwsmeriaid dros '8’

- <u>Deilliant Lleoedd</u>
- Cyflawni'r holl gynlluniau gwella cyfleusterau

- <u>Deilliant Amgylcheddol</u>
- Cyfrannu at darged carbon sero net corfforaethol ar gyfer 2030
- Gweithredu strategaeth rheoli gwastraff
- Cynlluniau mannau gwyrdd a rheoli cadwraeth ar draws pob safle

- <u>Deilliant Economaidd</u>
- Buddsoddiad ychwanegol o £10m i'r gwasanaeth
- Mae'r gwasanaeth yn gost niwtral

# SUT OLWG *FYDD* ARNI YN 2033?

- **Gwasanaeth mwy integredig ac annatod, sy'n sylfaenol i gyflawni deilliannau corfforaethol a chenedlaethol**
- **Pawb yn cael mynediad i'n gwasanaethau Hamdden, Diwylliannol ac Awyr Agored**
- **Pob plentyn ar y llwybr i fywyd egnïol, iach, cysylltiedig**
- **Mwy o bobl yn rhan o gymunedau ffyniannus, gofalgar, egnïol**
- **Hunaniaeth Ddiwylliannol gryfach Sir Gaerfyrddin**
- **Sir Gaerfyrddin iachach**
- **Lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef**
- **Pobl yn gofalu am ein hamgylchedd awyr agored a gwneud gwell defnydd ohono**
- **Gwasanaeth mwy effeithlon, cost effeithiol, sy'n ein galluogi ni i ail-fuddsoddi'n weithredol yn iechyd a llesiant pobl**
- **Economi gryfach, fwy llewyrchus, hunangynhaliol**

# Diolch / Thank you

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council